**Pwyllgor Cyfle Cyfartal**

| | |
|---|---|
| Dyddiad | 22 Tachwedd 2000 |
| Amser: | 2pm |
| Lleoliad: | Siambr y Cynulliad |

## TEITL: PENODIADAU CYHOEDDUS: ASESWYR ANNIBYNNOL

**Diben**

Ystyried trefniadau ar gyfer Aseswyr Annibynnol yn y dyfodol.

**Crynodeb/Argymhellion**

Mae’r Pwyllgor wedi dynodi ei fod am gyfnewid y gronfa bresennol o Aseswyr Annibynnol gyda rhestr ddiwygiedig o unigolion a gaiff eu dewis yn annibynnol o’r Cynulliad.

Argymhellir bod y Pwyllgor yn cytuno ar hyn mewn egwyddor ac yn gofyn am gynigion manwl.

**Amseru**

Gofynnodd y Gweinidog bod y papur dros dro hwn yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod heddiw. Gellir cyflwyno cynigion manwl ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor ym mis Ionawr.

**Cefndir**

Ar hyn o bryd mae gan Uned Penodiadau Cyhoeddus y Cynulliad (PAU) fanylion am 70 o unigolion a ddefnyddir fel Aseswyr Annibynnol. Penodir Aseswyr Annibynnol i sicrhau bod ymarferion penodiadau cyhoeddus yn cael eu gwneud yn briodol. Pe credir bod penodiadau wedi eu gwneud yn amhriodol neu annheg gellid adrodd i’r Comisiynydd dros Benodiadau Cyhoeddus. O’r 70, mae 30 dyn a 40 menyw. Mae un yn anabl ac un o leiafrif ethnig. Aeth mwyafrif yr unigolion hyn i’r afael a’u rôl ym mis Tachwedd 1999 ac fe’u gwahoddwyd i fynychu seminar hyfforddi a gynhaliwyd gan Swyddfa’r Comisiynydd dros Benodiadau Cyhoeddus (OCPA). Ym mhob proses benodi, mae un neu ddau Aseswr

yn goruchwylio'r holl broses drwy archwiliad papur a thrwy gymryd rhan bersonol yng nghamau didoli a chyfweld y broses ddethol. Nid oes tâl ar gyfer Aseswr Annibynnol ond fe gânt dreuliau.

Mae'r Pwyllgor wedi mynegi pryder ynghylch y gwaith o ddethol Aseswyr Annibynnol a p'un a ellid ystyried Aseswyr, a benodir gan y Cynulliad, yn wirioneddol annibynnol. Roeddynt hefyd yn ystyried nad oedd y rhestr bresennol yn cynrychioli poblogaeth Cymru. Awgrymwyd y byddai'n amserol i sefydlu rhestr newydd o unigolion sy'n fodlon gwasanaethu fel Aseswyr ac i sefydlu system sy'n sicrhau bod y gwaith o ddethol, hyfforddi a rheoli'r Aseswyr hyn yn agored a chlir ac yn hollol annibynnol o'r Cynulliad ei hun.

Mae OCPA wrthi'n cynnal adolygiad o rôl Aseswyr Annibynnol yn arbennig y broses o ddethol, hyfforddi a rheoli Aseswyr, a bwriedir gorffen yr adolygiad erbyn Ebrill 2001. Wedi hynny, rhagwelir y gall OCPA gynnig rhaglen hyfforddiant mwy cynhwysfawr (hyfforddiant cynefino a hyfforddiant mewn swydd) i Aseswyr a chadw rhestr ganolog o Aseswyr er mwyn i Adrannau llai Whitehall eu defnyddio (gallai Adrannau mwy eu defnyddio mewn rhai achosion).

**Ystyriaeth**

Rydym ni'n cynnig y dylid sefydlu rhestr newydd o Aseswyr fel a ganlyn:

- PAU i ddiolch i'r rhai sydd ar y rhestr Aseswyr bresennol am eu gwasanaeth, rhoi gwybod iddynt fod rhestr newydd yn cael ei sefydlu a bod eu cyfnod hwy yn dod i ben ar ddyddiad penodol (31 Mawrth 2001 o bosibl) ac i'w gwahodd i ail ymgeisio.
- PAU i gynnal 'ymarfer penodi, ar y cyd â OCPA, - gan roi hysbysebion a chyhoeddusrwydd yng nghyfryngau Cymru – i annog ymgeiswyr newydd (gan dargedu grwpiau sy'n cael eu tan-gynrychioli'n arbennig)
- Cysylltu â OCPA ar gyfer proses ddethol sy'n wirioneddol annibynnol o'r Cynulliad. Prosesu'r ceisiadau yn unig fydd gwaith Uned Penodiadau Cyhoeddus y Cynulliad. Gall cynrychiolwyr o OCPA yn ogystal â chynrychiolwyr o sefydliadau cyfle cyfartal, undebau llafur a sefydliadau busnes fod ar y paneli didoli a chyfweld. Ni ddylent gynnwys Aelodau'r Cynulliad a staff y Cynulliad.

Fel hyn, byddid wedi llunio rhestr drwy broses agored, eglur a theg heb i'r Cynulliad gymryd rhan uniongyrchol mewn unrhyw ffordd yn y gwaith o ddethol aseswyr unigol.

Byddai'n rhaid rheoli'r rhestr hon – h.y.tynnu enwau ohoni ar gyfer ymarferion arbennig, neu hyfforddiant ac ati. Gellid gwneud hyn drwy OCPA yn ganolog (fel rhan o'u cofrestr ganolog) neu drwy PAU, neu, fel arall, gan Gomisiynydd Cymru pe byddai Comisiynydd ar wahân i Gymru. (Rydym yn edrych ar sefyllfa gyfreithiol cael Comisiynydd Cymru a byddwn yn adrodd i'r Pwyllgor ym mis Ionawr). Awgrymodd trafodaethau cychwynnol a gafwyd gyda OCPA bod yn well ganddynt yr ail ddewis – gan allu trosglwyddo'r cyfrifoldeb i Gomisiynydd Cymru maes o law. Pe byddai OCPA yn rheoli rhestr Cymru, byddai'n rhaid darparu arian ar gyfer y gwaith.

Gwahoddir y Pwyllgor i gytuno bod swyddogion yn paratoi cynnig manwl ar sail y weithdrefn ddethol a amlinellwyd uchod ac y dylai’r rhestr gael ei rheoli gan PAU – ond mewn ffordd na fyddai’n gwneud i’r Cynulliad ymddangos fel petai’n ‘rheoli’r broses’.

**Uned Penodiadau Cyhoeddus**